# Pennu, comisiynu a rheoli contractau a chytundebau allanol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â helpu rheolwyr i bennu, comisiynu a rheoli contractau a chytundebau allanol, gan gynnwys Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau). Fe'i lluniwyd i gynnwys pob math o gontractio gyda chyflenwyr allanol. Mae hefyd yn cynnwys rheoli grantiau a wnaed i asiantaethau a sefydliadau cymunedol am ddarparu gwasanaethau, e.e. arian grant ar gyfer prosiectau diogelwch cymunedol. Mae'r term 'cytundeb' yn cael ei ddefnyddio'n amlach na chontract mewn achosion o'r fath, felly defnyddiwyd y ddau derm yn y safon. Mae darparwyr gwasanaeth hefyd yn fwy tebygol o fod yn paratoi cynigion am grantiau yn hytrach na thendrau, felly eto mae'r ddau derm wedi cael eu defnyddio.

Gall y fanyleb fod ar gyfer nwyddau neu wasanaethau, felly defnyddiwyd 'cyflenwr a darparwr gwasanaeth' i gynnwys y ddau.

Argymhellir y safon hon ar gyfer uwch-reolwyr a rheolwyr canol sy'n gyfrifol am gynllunio, canfod a rheoli contractau gyda chyflenwyr allanol a darparwyr gwasanaethau

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. adnabod yr angen am gael hyd i gynnyrch neu wasanaethau o'r tu allan, a chytuno gyda'r rhanddeiliaid priodol
2. datblygu manylebau contract a chytundeb a chytuno gyda'r rhanddeiliaid priodol
3. rhoi cyhoeddusrwydd i fanylebau contract mewn ffyrdd priodol a gwahodd tendrau a chynigion
4. llunio rhestrau byr o ddarpar gyflenwyr a darparwyr gwasanaethau gan ddefnyddio meini prawf cytunedig
5. dethol contractiwr gan ddilyn gweithdrefnau dethol cenedlaethol a sefydliadol cytunedig
6. sefydlu cytundebau contractiol gyda chyflenwyr a darparwyr gwasanaethau
7. cytuno ar weithdrefnau monitro cydymffurfiaeth o ran rheoli ansawdd a'u hadolygu
8. sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn derbyn gwybodaeth reolaidd ynghylch prosesau contractiol
9. datblygu cynlluniau monitro cydymffurfiaeth contractau a chytuno arnynt gyda rhanddeiliaid
10. cytuno ar brotocolau a gweithdrefnau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth contractau a chytundebau gyda chyflenwyr allanol
11. gweithredu a rheoli gweithdrefnau monitro cydymffurfiaeth contractau a chytundebau
12. adolygu a gwerthuso cynnydd a chanlyniadau contractau gyda chyflenwyr a darparwyr gwasanaethau
13. cytuno ar unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu rhoi ar waith

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. polisïau a gweithdrefnau cenedlaethol a sefydliadol ynghylch comisiynu a chytundebau lefel gwasanaeth
2. dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r contractau a'r cytundeb sy'n destun tendr
3. ffynonellau cyflenwyr allanol a darparwyr gwasanaethau
4. sut mae cynhyrchu manylebau ar gyfer contractau a chytundebau allanol
5. sut mae dethol cyflenwyr allanol a darparwyr gwasanaethau
6. gwahanol fathau o gytundebau contractiol y gellir eu defnyddio ar draws y Sector
7. y gwahaniaeth rhwng mewnbynnau, allbynnau a chanlyniadau
8. sut mae monitro a gwerthuso cynnydd a chydymffurfiaeth contractau a chytundebau
9. pa gamau i'w cymryd os na chyflawnir gofynion contractau a chytundebau
10. pa sancsiynau fydd yn cael eu gweithredu os na chyflawnir canlyniadau contract
11. pa wobrau gellir eu gweithredu os bydd contractwyr yn rhagori ar delerau ac amodau contract
12. y gofynion moesegol a chyfreithiol yng nghyswllt prosesau comisiynu a pham mae'n bwysig cydymffurfio â nhw

## Ymddygiadau

1. Rydych yn derbyn cyfrifoldeb personol dros wneud i bethau ddigwydd
2. Rydych yn cyfathrebu'n eglur ac yn effeithiol gyda rhanddeiliaid ac yn sicrhau eu bod yn deall y broses ac yn ymroddedig iddi
3. Rydych yn sicrhau bod eich cyhoeddusrwydd a'ch meini prawf a'ch arferion dethol yn deg, yn dryloyw ac yn dilyn arfer da o ran cyfle cyfartal
4. Rydych yn cytuno'n eglur ar yr hyn a ddisgwylir gan bobl eraill ac yn eu galw i gyfrif
5. Rydych yn annog cyflenwyr allanol a darparwyr gwasanaethau i drafod problemau posibl a darparu adborth mewn modd cadarnhaol
6. Rydych yn monitro cynnydd contractau yn barhaus er mwyn canfod meysydd a allai fod yn destun pryder ac yn cymryd camau i'w gwrthweithio
7. Rydych chi'n sicrhau tryloywder a chydraddoldeb y broses recriwtio ac yn cydymffurfio â'r gofynion moesegol a chyfreithiol ar gyfer comisiynu
8. Rydych yn gweithredu oddi mewn i ffiniau eich rôl a'ch cyfrifoldebau eich hun

## Sgiliau

Cyfathrebu
Cynllunio
Adolygu
Datrys problemau
Monitro
Gwneud penderfyniadau
Blaenoriaethu
Pennu amcanion
Gwerthuso
Cyd-drafod
Dadansoddi
Dylanwadu

## Cysylltiadau â SGC eraill